

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Ffwrnes

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

# Crynodeb

---

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sy'n gosod cyfeiriad strategol clir. Mae ei ddisgwyliadau uchel a'i weledigaeth o danio brwdfrydedd disgyblion yn eu dysgu yn treiddio drwy holl waith yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol i hyrwyddo diwylliant o uchelgais, parch a gofal. Mae athrawon, cynorthwyr a disgyblion fel ei gilydd yn ymroi'n llawn i werthoedd yr ysgol ac yn cyfrannu'n fuddiol at ei chynnydd parhaus.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno profiadau dysgu ymarferol a chyffrous sy'n ysgogi chwilfrydedd a chreadigrwydd disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau yn annibynnol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y meysydd dysgu. Mae athrawon a chynorthwyr yn darparu adborth clir a defnyddiol sy'n helpu disgyblion i ddeall yr hyn maent yn ei gyflawni'n dda ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Yn ddiweddar, mae staff wedi rhoi ffocws penodol ar gryfhau'r agwedd hon ymhellach. Yn yr arferion gorau, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau mireinio cynnwys eu gwaith yn grefftus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gryf, gan sicrhau bod disgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio technoleg sydd hefyd yn hybu eu medrau llafaredd yn fuddiol. Mae staff hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau a chredoau gwahanol yn llwyddiannus, gan feithrin eu parch a dealltwriaeth yn dda.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda. Maent yn gwrtais, yn weithgar ac yn cyfranogi'n ddiwyd yn eu dysgu mewn amgylchedd gofalgarg a diogel. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol, pan fo angen. Trwy weithio'n agos â'r rhieni, y llywodraethwyr a'r gymuned leol, mae athrawon yn cynnig profiadau cyfoethog i ddisgyblion sy'n cryfhau'r ymdeimlad o berthyn a balchder.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

---

## Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Gwreiddio a chysoni yr arferion adborth effeithiol i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi ymhellach i wella eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).

---

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2026